Rhaglen Wirfoddoli | Volunteer Programme

Gall gwirfoddoli fod yn werth chweil ac mae'n ffordd wych o ddysgu sgiliau newydd, cadw'n heini a chymdeithasu tra'n helpu'r amgylchedd yr un pryd.

Mae'r grŵp yn cyfarfod ar un dydd Sadwrn y mis o 10am-2pm gydag egwyl am ginio.

Mae Parc Gwledig Bryngarw yn bwysig oherwydd ei amrywiaeth o goed, blodau, adar, mamaliaid a phryfed. Mae'r cynefinoedd yno yn cynnwys coetiroedd collddail, gwlypdiroedd, dolydd o flodau gwyllion, yr Afon Garw a gerddi ffurfiol. Mae angen rheoli'r rhain i gyd er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw yn y cyflwr gorau posibl fel y gall ymwelwyr eu mwynhau drwy'r flwyddyn.

Mae ein gwirfoddolwyr yn rhan allweddol o'r gwaith hwn. Yn ychwanegol at y gwaith rheoli blynyddol hwn, maent hefyd wedi helpu i ddatblygu nifer o brosiectau eraill yn cynnwys adfer y berllan, creu gardd coetir ar gyfer pobl â symudedd cyfyngedig a chreu gardd natur addysgol i'w defnyddio gan ysgolion lleol a grwpiau eraill.

Volunteering can be very rewarding and is a great way to learn new skills, keep fit and socialise while helping the environment at the same time.

The group meet one Saturday every month from 10am-2pm with a break for lunch.

Bryngarw Country Park is important for its diversity of trees, flowers, birds, mammals and insects. Its habitats include deciduous woodlands, wetlands, wildflower meadows, the River Garw and formal gardens. These all need to be managed to ensure they remain in the best possible condition to be enjoyed by visitors all year round.

Our volunteers are vital to this work. In addition to this annual management, they have also helped to develop a number of other projects including the restoration of the orchard, the creation of a woodland garden for people with limited mobility and the creation of an educational nature garden for use by local schools and other groups.



Mae offer a hyfforddiant ar gael ar gyfer pob digwyddiad i wirfoddolwyr. Gwisgwch ddillad ac esgidiau addas os gwelwch yn dda. Mae'n rhaid i blant o dan 16 oed gael cwmni oedolyn.

Tools and training are provided for all volunteer events. Please wear suitable clothing and footwear. All children under 16 must be accompanied by an adult.

Ymunwch â ni ar ein tudalen Facebook

Join in on our Facebook page

Bryngarw **@BryngarwHCP**

awen

Parc Gwledig Bryngarw

Bryngarw Country Park

2018

Rhaglen Wirfoddoli | Volunteer Programme

Darganfyddiadau newydd i'w gwneud drwy'r amser...

Always new discoveries to be made...

Mae gwirfoddolwyr yn cynnwys aelodau o'r gymuned leol sy'n rhoi eu hamser ac yn ymdrechu i gefnogi gwarchod amgylchedd naturiol y parc.

Volunteers are made up of members from the local community who donate their time and effort to support preserving the park's natural environment.

www.bryngarwcountrypark.co.uk

Rhaglen Wirfoddoli | Volunteer Programme 2018

Dydd Sadwrn 13 Ionawr
Clirio Prysg Porfa Rhos

Mae ardal Porfa Rhos yn hafan i famaliaid bach, tylluanod hela, boncathod a llawer o fywyd gwyllt arall. Er mwyn cadw'r cynefin gwelltir pwysig hwn mewn cyflwr da, mae'n rhaid tocio a chael gwared â'r helyg a'r mieri.

Dydd Sadwrn 3 Chwefror
Clirio Prysg Coed Bwtsiasen y Gog

Mae coetiroedd y DU yn gartref i bron i 50% o boblogaeth bwtsiasen y gog cynhenid y byd (Hyacinthoides non-scripta). Gyda'u harogl unigryw a'u blodau cain, mae bwtsiasen y gog yn nodwedd eiconig o Fryngarw yn ystod y gwanwyn. Bydd tocio'r mieri a'r prysg yn galluogi i oleuni'r haul holl bwysig gyrraedd y blodau, gan eu galluogi i ledaenu a ffynnu. Dewch i'n helpu i greu rhywbeth prydferth.

Dydd Sadwrn 3 Mawrth
Rheoli'r Ardd Natur

Mae grwpiau o ysgolion a bywyd gwyllt fel ei gilydd yn caru'r Ardd Natur. Dewch i'n helpu i gael y rhan hardd hon o'r parc yn barod am y flwyddyn brysur o'n blaenau. Ein gwobr am ein hymdrechion fydd tân a marshmalos wedi'u crasu yn y Tŷ Crwn!

Sadwrn 7 Ebrill
Glanhau'r Afon

Dyma ein hymdrech flynyddol i lanhau'r afon, pan fyddwn yn tynnu ysbwriel a gweddillion eraill sydd wedi cael eu golchi i lawr o'r dyffryn uwchlaw. Mae'n gyfle i wneud gwahaniaeth i ymwelwyr a bywyd gwyllt ac mae'n gyfle gwych i wisgo esgidiau pysgota a gweld y parc o safbwynt yr afon.

Dydd Sadwrn 5 Mai
Diwrnod Arolygu Bywyd Gwyllt

Gyda'r holl waith rydyn ni'n ei wneud i reoli cynefinoedd naturiol y parc, mae angen i ni wybod pa fywyd gwyllt sydd ar gael i dderbyn y budd! Bydd y diwrnod hwn yn canolbwyntio ar drigolion gwyllt y parc gyda maglu mamaliaid, gwirio blychod ystlumod ac arolygu adar.

Dydd Sadwrn 9 Mehefin
Brwydro'r Balsam

Mae rhywogaethau planhigion ymledol yn bygwth ein cynefinoedd bywyd gwyllt drwy orchuddio ardaloedd eang a threchu planhigion cynhenid mwy cain. Mae ein brwydr flynyddol yn erbyn y Ffromlys Chwarennog yn cychwyn yma. Dewch i'n helpu i frwydro yn erbyn yr ymosodwr anrheithiol yma.

Dydd Sadwrn 7 Gorffennaf
Arolwg Blodau Gwylltion Dydd Cenedlaethol y Dolydd

Mae bron i 98% o ddolau blodau gwyllion traddodiadol y DU wedi cael eu colli yn ystod y 60 mlynedd diwethaf, felly rydym yn warchodol iawn o'r rhai sydd gennym ym Mryngarw. Mae monitro a chofnodi rhywogaethau'r planhigion a'r blodau yn allweddol er mwyn sicrhau bod y gwaith o reoli'r cynefin eiconig yma yn llwyddo. Mae hyn hefyd yn esgus da i dreulio diwrnod o haf mewn dôl o flodau gwylltion!

Saturday 13 January
Rhos Pasture Scrub Bash

The Rhos Pasture area is a haven for small mammals, hunting owls, buzzards and lots of other wildlife. To keep this important grassland habitat in good condition, the willow and bramble must be cut back and removed.

Saturday 3 February
Bluebell Wood Scrub Clearance

The UK's woodlands are home to almost 50% of the world's population of the native bluebell (Hyacinthoides non-scripta). With their unique scent and very delicate flowers, bluebells are an iconic feature of Bryngarw in springtime. Cutting back the bramble and scrub will allow in the all-important sunlight, allowing the bluebells to spread and flourish. Come and help us create something beautiful.

Saturday 3 March
Nature Garden Management

The Nature Garden is loved by school groups and wildlife alike. Come and help us get this beautiful area of the park ready for the busy year ahead. Our efforts will be complimented by a fire and toasted marshmallows in the Roundhouse!

Saturday 7 April
River Clean Up

Our annual river clean-up, where we remove the litter and other debris which has washed down from further up the valley. An opportunity to make a difference for visitors and wildlife and a great chance to don some waders and see the park from the perspective of the river.

Saturday 5 May
Wildlife Surveying Day

With all the work we put into managing the park's natural habitats, we need to know what wildlife is out there to receive the benefit! This day will focus on the park's wild inhabitants with mammal trapping, bat box checking and bird surveying.

Saturday 9 June
Balsam Bash

Invasive plant species threaten our wildlife habitats by covering large areas and out-competing our more delicate native plants. Our annual battle with the Himalayan Balsam begins here. Come and help us fight this marauding invader.

Saturday 7 July
Wildflower Survey National Meadows Day

Almost 98% of the UK's traditional wildflower meadows have been lost in the last 60 years, so we are very protective of the ones we have at Bryngarw. Monitoring and recording the species of plants and flowers is vital to ensure that the management of this iconic habitat is working. Also a great excuse to spend a summer's day in a wildflower meadows!

Rhaglen Wirfoddoli | Volunteer Programme 2018

Dydd Sadwrn 4 Awst
Cribinio Gwair

Fel y gall ein dolydd o flodau gwylltion ffynnu, mae angen eu torri ar ddiwedd yr haf ar ôl i'r planhigion gael cyfle i fwrw had. Yna mae'n rhaid cael gwared â'r toriadau er mwyn galluogi i wair y flwyddyn ganlynol flodeuo a ffynnu. Ymunwch â ni ar ein diwrnod blynyddol o gribinio gwair yr ardaloedd yma yn y parc sy'n llawn blodau, er mwyn sicrhau cnwd da'r gwanwyn nesaf.

Dydd Sadwrn 1 Medi
Rheoli'r Berllan

Mae'r blynyddoedd diweddar wedi gweld gwelliannau gwych i'r berllan, gyda cherfluniau a meinciau newydd, a digwyddiad cymunedol agoriadol i wasgu afalau! Bydd digwyddiad gwirfoddol mis Medi yn cael ei ymroi i sicrhau bod yr ardal arbennig hon o'r parc yn parhau i fod yn y cyflwr uchaf wrth inni racanu gwair, rhwygo mieri/rhedyn a thacluso'n gyffredinol. Ac wrth gwrs, gwasgu afalau!

Dydd Sadwrn 6 Hydref
Clirio Llyn

Gall rhai o'r planhigion yn llynnoedd yr Ardd Ddwyreiniol dyfu'n rhyfeddol o gyflym, gan lenwi'r llyn cyfan maes o law. Er mwyn atal hynny rhag bob yn broblem, mae'r llynnoedd yn cael eu clirio bob blwyddyn, gan adael dim ond o swm priodol o ddyfrllys ar gyfer y bywyd gwyllt. Mae'r gwaith hwn yn gyfle perffaith i fod yn fwdlyd a gwlyb. Mae'n llawer o hwyl ac mae'n wirioneddol yn helpu'r llynnoedd a'r bywyd gwyllt!

Dydd Sadwrn 3 Tachwedd
Rheoli Gardd Coetir

Ar gyfer y digwyddiad hwn rydym yn canolbwyntio ar ardaloedd yr Ardd Coetir a'r Berllan. Tybir fod y berllan yn 100 oed, tra bod yr Ardd Goetir yn un o'r ychydig ardaloedd o goetir sy'n hygyrch i rai â symudedd cyfyngedig. Mae yna wrychoedd sych i'w codi, bylbiau i'w plannu a mieri i'w clirio. Ymunwch â ni wrth i ni weithio i wella'r nodweddion pwysig yma.

Dydd Sadwrn 1 Rhagfyr
Digwyddiad Nadolig yr Ardd Natur

Dyma'n ffordd o ddweud "diolch yn fawr" Nadoligaidd i'n gwirfoddolwyr am eu holl waith caled yn ystod y flwyddyn a fu. Dewch i ddathlu'r Nadolig gyda ni yn yr Ardd Natur gyda thân gwynias, rhostio marshmalos, siocled poeth, gwin cynnes, creu torchau a llawer o weithgareddau traddodiadol eraill.

Saturday 4 August
Orchard Hay Rake

For our wildflower meadow areas to flourish, they need to be cut at the end of the summer once the plants have had a chance to set seed. The cuttings must then be removed to allow next year's grasses and flowers to thrive. Join us for our annual hay-rake of these flowers-rich areas of the park, to ensure a good crop next spring.

Saturday 1 September
Orchard Management

Recent years have seen great enhancements to the orchard, with new sculptures, benches and an inaugural apple-pressing community event! September's volunteer event will be dedicated to ensuring that this special area of the park remains in top condition with a hay rake, bramble/bracken bash and general tidy up. And of course, apple-pressing!

Saturday 6 October
Pond Clearance

Some of the plants in the Oriental Garden ponds can grow incredibly fast, eventually filling the whole pond. To stop this becoming a problem, every year the ponds are cleared, leaving just the right amount of pondweed for the wildlife. The job is the perfect opportunity to get really muddy and wet. It's great fun and really helps the ponds and their wildlife!

Saturday 3 November
Woodland Garden Management

For this event, we focus on the Woodland Garden and Orchard areas of the park. It is thought the orchard dates back 100 years, while the Woodland Garden is one of the few areas of woodland accessible to those with limited mobility. There are dead-hedges to make, bulbs to plant and brambles to clear. Join us as we work to improve these important features.

Saturday 1 December
Nature Garden Christmas Event

A big festive "thank you" to our volunteers for all their hard work over the last year. Come and celebrate Christmas with us in the Nature Garden with a roaring fire, marshmallow-toasting, hot chocolate, mulled wine, wreath-making and lots of other traditional activities.

Os ydych yn teimlo'n angerddol am gadwraeth a'r awyr agored ac y byddech yn hoffi dysgu mwy am wirfoddoli, ffoniwch y parc ar 01656 725155.
Mae Grŵp Gwirfoddolwyr Bryngarw yn cael ei gynnal yn annibynnol ac mae wedi agor ei gyfrifon cyfryngau cymdeithasol ei hun. I gael mwy o wybodaeth e-bostiwch: bryngarwparksvolunteergroup@gmail.com

If you have a passion for conservation and the great outdoors and would like to learn more about becoming a volunteer, please call the park on 01656 725155.
The Bryngarw Volunteer Group is independently run and they have set up their own social media accounts. For more information email: bryngarwparksvolunteergroup@gmail.com